

**Inaugural AGM of the Senedd Cross Party Group on Renewable and Low Carbon Energy
CCB agoriadol Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

12.30 - 1.30pm, Wednesday 17 November 2021

12.30 - 1.30yp, ddydd Mercher 17 Tachwedd 2021

Online meeting / Cyfarfod ar-lein

Minutes / Cofnodion

Aelodau'r Senedd

Delyth Jewell AS (Cadeirydd)

Mabon ap Gwynfor AS

Lee Waters MS, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (siaradwr)

Yn Bresennol

Andrew Donald, Centrica Business Solutions
Andy Billcliff, Ynni Morlais/Menter Môn
Angharad Davies, Cadno Communications
Bethan Simes, DP Energy
Breon Finch, EDF Renewables
Dafydd Williams, Eco2 Limited
Daniel Taylor, Newsdirect Wales
David Brown, Arup
David Clubb, Afallen
Eleri Davies, RWE Renewables UK Ltd
Ffion Davies, ABP
Gareth Hawkins, Statkraft
Gaynor Jackson
Gwenllian Elias, Savills
Hayley Warrens, Trafnidiaeth Cymru
Helen Westhead, Arup
Ian Masters, Prifysgol Abertawe
Ifan Gwilym, Barton Willmore
Ioan Jenkins, Prosperity Energy Limited
Jack Wilkinson-Dix, Energy Saving Trust
Jason Hester, Porthladd Aberdaugleddau
Jeremy Smith, RWE Generation
Jon Fox, Wardell Armstrong
Lawrence Cox, Belltown Power
Lisa Christie, Vattenfall Wind Power Ltd

Mabon ap Gwynfor AS, Senedd
Martyn Roberts, Firebox Solution Ltd
Mary Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru
Matt Telfer, Ynni Morol Cymru
Michael Phillips, Dulas Ltd
Natalie Rees, Trafnidiaeth Cymru
Nathan Currell, Grid Cenedlaethol
Neil Lewis, Ynni Sir Gâr
Peter Trott, Afallen LLP
Philippa Powell, RWE
Ralph Windeatt, ABP
Rhiannon Phillips, Llywodraeth Cymru
Rhys Wyn Jones, RUK Cymru
Rory Johnson, Llywodraeth Cymru
Rosemary Grogan, Cadno Communications
Sara Powell-Davies, RUK Cymru
Sarah Jones, Cadno Communications
Simon Morgan, EDF Renewables
Thomas Yeo, Cyngor Sir Powys
Tim Heatley, Dorothea Pumped Hydro Limited
Tom Crick, NICW
Tom Glover, RWE
Tony Cooke, Ynni Cymunedol Caerdydd
Trevor Hunter, Coriolis Energy
Will Henson, Sefydliad Materion Cymreig

1. Croeso a chyflwyniadau

- Croesawyd pawb gan Rhys Wyn Jones. Roedd y grŵp trawsbleidiol ynni cynaliadwy yn y Senedd flaenorol yn addysgiadol ac yn boblogaidd.
- Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio a bydd ar gael ar ôl y sesiwn.
- Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Finch Saunders AS.

2. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeiryddion

- Enwebodd Rhys Wyn Jones Delyth Jewell AS yn Gadeirydd, eiliwyd gan Angharad Davies. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

- Dechreuodd Delyth Jewell gadeirio. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Senedd a'r rhai oedd yn bresennol o'r diwydiant. Mae ynni adnewyddadwy a charbon isel yn faterion hollbwysig ac amserol yn sgil COP 26.
- Enwebodd y Cadeirydd Huw Irranca Davies AS a Jane Dodds AS yn is-gadeiryddion, eiliwyd gan Mabon ap Gwynfor AS. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

3. Ethol Ysgrifennydd

- Enwebodd y Cadeirydd Cadno Communications fel Ysgrifennydd, eiliwyd gan Rhys Wyn Jones. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

4. Cytuno ar ddatganiad ffurfiol o bwrpas y grŵp

- Cymeradwywyd pwrpas y grŵp gan y grŵp: "Fforwm i hwyluso trafodaethau rhwng y diwydiant a seneddwyr a llywio'r ddadl ar ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghymru."

5. Rhaglen waith y dyfodol ar gyfer y grŵp

- Bwriedir i'r grŵp gyfarfod tua thair gwaith y flwyddyn, yn amlach os yn bosibl. Dylai aelodau anfon awgrymiadau ar gyfer siaradwyr ac eitemau ar yr agenda at Cadno Communications.

6. Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS: Archwiliad Dwfn Ynni Adnewyddadwy a Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

- Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn falch iawn o weld y Grŵp Trawsbleidiol yn ffurfio a bod y grŵp blaenorol yn stori o lwyddiant gwirioneddol.
- Mae'r portffolio yn enfawr ac yn cwmpasu ynni, tai, trafnidiaeth, digidol, a mwy. Prif nod yr archwiliad dwfn i ynni adnewyddadwy yw archwilio beth y gellir ei wneud i ddileu rhwystrau. Mae'r grŵp craidd yn cyfarfod yn rheolaidd ac ategir y rhain gan gyfarfodydd bord gron gyda diwydiant, cyrff anllwyodraethol ac eraill.
- Bydd y dirprwy weinidog yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol yr archwiliad dwfn i'r Senedd ar 7 Rhagfyr 2021.
- Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog syniadau drwy e-bost.
- Bydd Cadno yn casglu'r holl gwestiynau ac yn eu hanfon at y Dirprwy Weinidog ar ôl y cyfarfod.

C. Gan nodi'r gwrthodiad diweddar ar gyfer safle Blackberry Solar yn Sir Benfro - Sut allwn ni sicrhau nad yw natur dros dro PV yn cael ei hystyried yn niweidiol i dir amaethyddol?

A. Nid yw Julie James AS a minnau'n frwd dros garpedu cefn gwlad gyda ffermydd solar mawr. Rwy'n meddwl bod ynni solar yn well ar adeiladau. Mae eisiau meddwl am effeithiau ehangach, mae yna argyfwng natur a hinsawdd, a dydyn ni ddim eisiau canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n helpu un ond yn effeithio ar y llall. Rwy'n meddwl bod llawer mwy y gallwn ei wneud ag adeiladau. (LW)

Pwynt atodol: Ni fyddwch byth yn cael y math o fewnbwn i'r grid sy'n ofynnol gan ynni solar ar adeiladau. Gallaf ddeall cymryd tir allan o gynhyrchiant ond dim caniatâd cynllunio dros dro ydyw, mae'n gorffwys y tir. 37 mlynedd fel arfer. Yr unig leoedd lle gallwch chi roi ynni solar gwerthfawr yw lle mae cysylltiad grid.

A. Nid wyf yn ystyried 37 mlynedd yn dros dro. Mae'n cyrraedd pwynt dirlenwi lle mae hynny'n mynd yn anghyfforddus, ac mae angen inni gael cydbwysedd. (LW)

C. Mae ficeriaid Cymru wedi dod ataf yn nodi bod pob eglwys yn wynebu tua'r dwyrain, felly mae gan bob eglwys do mawr sy'n wynebu'r de. Faint o waith ydych chi'n ei wneud gyda'r Eglwys yng Nghymru

ac enwadau eraill i osod paneli solar ar y toeau hyn (mae cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yn broblem, wrth gwrs).(MaG)

A. Mae'n bwynt da ac rwy'n hapus i'w ystyried ymhellach. (LW)

C. A oes awydd i dyfu cnydau adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu bioethanol ac a oes cynllun ar gyfer y dyfodol i ddatblygu hyn tuag at yr ymchwil hydrogen yma yng Nghymru?

A. Mae penblethau moesegol ynghylch defnyddio tir i dyfu tanwydd mewn gwirionedd. Mae gen i ddiddordeb mewn clywed y dadleuon. (LW)

C. Mae'r archwiliad dwfn yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, tra bod llawer o'r heriau'n ymwneud ag integreiddio systemau - trafniadaeth, gwres, rhwydweithiau ac ati. Sut ydych chi wedi bod yn ystyried hyn hyd yma?

A. Cytuno. Mae gwaith mapio ynni rhanbarthol yn cael ei wneud o ganlyniad i'r gwaith a wnaeth yr IWA. (LW)

C. Beth am *agrivoltaics* lle nad yw ynni solar yn disodli cynhyrchu bwyd? Gall ffermydd solar fod yn hafan i bryfed peillio, oherwydd gall plannu o dan ac o amgylch y paneli ddenu gwenyn a chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

C. Mae Cynllun Sero Net Cymru yn sôn am darged o 1GW o gapasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol erbyn 2030 - a yw Llywodraeth Cymru yn hyderus bod digon o brosiectau naill ai eisoes wedi'u caniatáu neu ar y gweill (ac yn debygol o fod yn cynhyrchu erbyn 2025) i gyflawni'r targed hwn?

A. Dydw i ddim yn sicr pa gapasiti sydd yn y broses gynllunio. Mae angen i ni fod mor uchelgeisiol ag y gallwn fod (LW).

C. A allai Lee ddweud wrthym beth yw ei farn ynglŷn â chyflwyno gwres adnewyddadwy yn gyflym ac yn eang yng Nghymru a pha gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill yn y maes hwn o ystyried bod gwresogi adeiladau'n cyfrif am 23% o allyriadau'r DU?

A. Rydw i wir eisiau i chi ddweud wrthyf beth yw'r problemau yn eich barn chi a beth yw'r atebion yn eich barn chi. (LW)

C. Rwy'n llawn cyffro bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i Forlynnoedd Llanw, lle'r ydym wedi gweld lansio Her y Morlynnoedd Llanw yn ddiweddar. Beth mae'r Gweinidog yn ei weld fel camau nesaf y broses hon, a beth yw'r amserlenni tebygol?

A. Mae'n dda iawn gweld hwn yn dod o Abertawe, nid Llywodraeth Cymru. Er mwyn ateb yr her hon mae angen i bawb weithredu, nid dim ond Llywodraeth Cymru. Mae angen iddo fynd drwy'r prosesau cynllunio a rheoleiddio, sy'n parhau heb eu profi o ran ynni morol. Mae gennym gronfa Her Forol yn cael ei datblygu. (LW)

C. Gan gydnabod rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r system gynllunio ar gyfer prosiectau daearol, pa mor bwysig yn eich barn chi yw rôl ynni adnewyddadwy morol fel ynni gwynt alltraeth arnofiol?

A. Cawsom gyfarfod da iawn gyda Llywodraeth Iwerddon yn ddiweddar, gyda'r Gweinidog Tramor a'r Gweinidog Ynni. Rydym yn cydnabod bod gan y Môr Celtaidd gyfleoedd, mae problemau ynghylch parodrwydd grid a phorthladdoedd ac rydym yn sôn am y potensial i gydweithio ar hynny. Mae grid yn thema sy'n dod allan o'r archwiliad dwfn. Byddwn yn gwneud rhai argymhellion ar hynny ac yn cael cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol ac Ystad y Goron i anfon yr argymhellion o hynny ymlaen. (LW)

C. Rydym yn ymwybodol y bydd datganiad yn cael ei wneud ddechrau mis Rhagfyr, ond tybed a fydd yr archwiliad dwfn yn llywio unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod? Rwy'n ymwybodol y gallai Bil

Seilwaith fod yn dod gerbron y Senedd y flwyddyn nesaf, tybed a allai rhai o'r elfennau, cynllunio, cymunedau a rôl y sector ynni fod yn rhan o hynny.

A. Megis dechrau dod i'r amlwg mae argymhellion o'r archwiliad dwfn. Gallai fod yn gyfrwng. Bydd Bil Seilwaith 2022 yn hanfodol ar gyfer symleiddio'r broses gydsynio. (LW)

C. Gan ddod yn ôl at y rhyngweithio â'r Gwyddelod ar y Môr Celtaidd a chyfyngiadau'r grid, un o'r materion mwyaf sydd gennym yw'r hyn rydym am ei wneud yn rhan Gymreig y Môr Celtaidd a bydd yr hyn mae'r Gwyddelod am ei wneud yn cael ei gyfyngu gan y capasiti grid yn ne Cymru. E.e. Mae prosiect diweddaraf RWE wedi cael cynnig cysylltiad â gogledd Dyfnaint, yn hytrach na Chymru. Byddai'n well gennym ni fynd i Sir Benfro oherwydd dyna lle mae ein clwstwr Sero Net Penfro.

A. Mae'n her enfawr. Nid yw'r Grid Cenedlaethol wedi'i ddatganoli, mae'n gwmni preifat. Rwy'n awyddus i ddatblygu atebion nad ydynt yn dibynnu ar y Grid Cenedlaethol. Yn yr un modd, mae angen inni roi pwysau ar y Grid Cenedlaethol i ymateb i'r her o'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. (LW)

Pwynt atodol: Ym Mhenfro rydym yn edrych ar hydrogen fel opsiwn, mae cymorthdaliadau ar lefel y DU, nid lefel Cymru.

Bydd hefyd yn ddiddorol gweld sut mae prosiect Morlais ar Ynys Môn yn datblygu, sydd ag elfen hydrogen. (LW)

C. A all y Dirprwy Weinidog roi syniad pryd y bydd ei ddogfen Llwybrau Hydrogen yn cael ei chyhoeddi?

A. Roeddem yn aros i strategaeth y DU gael ei chyhoeddi i sicrhau bod aliniad rhwng y ddau. Mae yng nghamau olaf ei ddatblygiad. Rydym yn awyddus iawn i edrych ar ystod o raddfeydd a lleoliadau ar gyfer ynni solar ond mae gwir angen i ni fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau polisi sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a mathau eraill o ddefnydd tir. (RP).

C. Ai'r lle i ddechrau yw: cynllunio defnydd tir cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy lle mae tir (a gwely'r môr) yn cael ei asesu o ran cyfyngiadau ac effeithiau er mwyn caniatáu creu cynllun heb unrhyw nodweddion gwahaniaethol: ar ddarnau o dir a allai fod yn addas ar gyfer solar / biomas / arall (Philippa Powell)

A. Rydym yn dechrau edrych yn strategol ar ddefnydd tir, gan ddeall yr holl bolisiau a allai olygu defnyddio tir a sut y gallwn edrych ar gynnwys amaethyddiaeth, bioamrywiaeth, targedau plannu coed ac ynni adnewyddadwy ac ati i edrych ai gwahaniad neu strategaeth gydleoli sydd ei angen. (RP)

C. Pa waith fydd yn cael ei wneud i sicrhau y gall ein system ynni adnewyddadwy wrthsefyll risgiau hinsawdd yn y dyfodol, megis stormydd eithafol a llifogydd.

Pwynt atodol: Ym mis Awst 2019 bu methiant trychinebus yn rhwydwaith trydan y DU a rwystrodd yr holl drenau rhag dod allan o Lundain, mae'n bwynt perthnasol iawn. Pan fyddwn yn sôn am darged 100% adnewyddadwy, beth yw'r cynlluniau ar gyfer y "cynhyrchu cadarn, hyblyg".

A. Mae cryn dipyn o newid hinsawdd eisoes wedi dod i'r amlwg. Fel rhan o'r cynllun addasu cenedlaethol mae angen i ni wneud yr adeilad yn wydn rhag risgiau hinsawdd yn y dyfodol a byddwn yn gweithio gyda llywodraeth y DU ar gynllunio senarios. Rydych chi'n iawn, mae'n rhywbeth y mae angen i ni i gyd fod yn ymwybodol ohono. (LW)

C. Cefais bwynt atodol i'r drafodaeth ar weithio gyda'r Grid Cenedlaethol a chwilio am atebion. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ryddhau capasiti ar rwydwaith Cymru drwy weithio'n agosach gyda'r Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarth e.e. drwy adeiladu pwyntiau cyflenwi dosbarthu newydd yn ne Cymru.

A. Rydym yn gweithio gyda Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu fel rhan o'r cynllunio ynni rhanbarthol ac mae grŵp grid yn edrych ar senarios y dyfodol. Croesewir unrhyw awgrymiadau pellach. Er gwybodaeth, mae David Clubb wedi cytuno i'n helpu i arwain Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a gofynnais yn benodol i David wneud hynny oherwydd ei arbenigedd a'i ffocws ar newid hinsawdd ac ynni adnewyddadwy. Rydym yn ail-lunio CSCC i'n helpu gyda'r ffocws penodol ar waith newid hinsawdd. (LW)

C. A ddisgwyllir i'r "archwiliad dwfn" gydnabod hyfywedd economaidd mewn byd di-gymhorthdal o arwerthiannau CfD/PPA cystadleuol fel rhwystr pwysig i ddefnydd ac felly ystyriaeth gynllunio berthnasol, o ran cydbwysu yn erbyn effeithiau (gweledol ac fel arall) - ar raddfa ynni adnewyddadwy?

A. Rydym yn gweithio gyda llywodraeth y DU ar eu CfDs a'u rhagamcanion ar gyfer symud i ffwrdd oddi wrth sybsideiddio ynni adnewyddadwy. Rydym yn haeru ein bod yn meddwl bod angen cymysgedd o dechnolegau arnom fel y gallwn fod yn wydn. Nid ydym yn meddwl y dylai'r gost isaf ennill bob tro. Mae angen cydbwysu galw a chost a manteision technolegau drutach. (RP)

A. Rwy'n rhoi dwy her ym mhob cyfarfod: beth allwn ni ei wneud yn gyflym, a sut y byddwn yn sicrhau bod cymunedau'n elwa o hyn. Dydym ni ddim eisiau ailadrodd patrwm chwyldroadau diwydiannol blaenorol lle mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu hecsbloetio er budd gan chwaraewyr y tu allan i Gymru a chymunedau'n cael y sbarion. Rydym eisiau gweithio gyda chwmnïau rhyngwladol ond hefyd cynnal gwerth yn lleol. Rydym eisiau gwir gymuned/cydbberchnogaeth, manteision cymunedol ehangach. Rydw i eisiau newid y model. (LW)

Pwynt atodol – cytuno, mae angen cymysgedd o dechnolegau a graddfeydd. Ni fydd technolegau ar raddfa lai, llai sefydledig yn arwain Cymru i sero net erbyn 2050, felly bydd arnom angen y prosiectau ar raddfa fwy a thechnolegau sefydledig fel gwynt ar y tir, gwynt ar y môr a solar hefyd.

A. Rwy'n cytuno. Nid yw'n wir ein bod yn troi ein cefnau ar gynlluniau mawr. Yn yr un modd nid ydym eisiau i'n dyfodol gael ei ddiffinio'n llwyr gan y model hwnnw. Mae hwn yn gyfle economaidd yn ogystal â rheidrydd hinsawdd. (LW)

A. Beth yw eich synnwyr o'r cydbwysedd sydd ei angen rhwng prosiectau mawr a bach, a barn ar rai o'r technolegau nad ydym yn sôn amdanynt fel pwmpio hydro ac a oes unrhyw obaith y bydd Morglawdd Hafren yn dychwelyd? (RWJ)

A. Mae'r rhain yn farnau anodd. Rwy'n falch bod Rhys ar y grŵp hwn i ddarparu llais arbenigol o'r diwydiant o fewn Cymru. O ran mawr yn erbyn bach, fy ngreddf yw bod angen mil o flodau'n blodeuo. Mae angen inni leihau'r defnydd o ynni, mae angen i leihau'r galw fod yn rhan bwysig o hyn. Yna mae angen i ni newid y berthynas â'r ynni a ddefnyddiwn fel bod pob un ohonom yn deall effaith ein hymddygiad. Rydym am gyrraedd y pwynt lle mae pob tŷ yn orsaf bŵer ei hun, felly mae llawer o ymyriadau bach a thechnoleg ac AI yn bwysig. O ran y cynhyrchiant sydd gennym mae angen y ddau. Rydw i wedi gweld cynlluniau hydro cymunedol gwych ym Methesda. Mae'n cymryd amser hir ac mae angen lefel o gapasiti cymunedol na ellir ei ailadrodd, felly mae heriau enfawr ond pan fyddant yn gweithio rwy'n meddwl eu bod yn wych. Mae'n amlwg bod angen i ni weld datblygiadau mawr hefyd i wneud yn siŵr bod gennym ni ymyriadau mawr, profedig.

O ran Morglawdd Hafren, yn ôl a ni at natur a'r argyfwng hinsawdd, Mae angen inni droedio'n ofalus iawn, yn enwedig o ran cynlluniau mwy, nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar bethau eraill. (LW)

7. Unrhyw fater arall

Dim

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn gynnar ym mis Chwefror 2022